**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-4-600
Ein cyf/Our ref MD/05470/14William Powell AC
Aelod Cynulliad Canolbarth a Gorllewin Cymru
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Petition@Wales.gov.uk

29 Hydref 2014

Annwyl William,

Diolch ichi am eich llythyr 17 Hydref ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch Deiseb : P-04-600 Save General Practice, oddi wrth Goleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol.

Diolch ichi am dynnu fy sylw at y ddeiseb hon. Rwyf yn cefnogi Ymarfer Cyffredinol yn llawn fel rhan annatod o'r GIG, ac yn cydnabod bod Ymarferwyr Cyffredinol, ynghyd â gweithwyr proffesiynol eraill ym maes gofal iechyd ledled Cymru'n wynebu pwysau beunyddiol cynyddol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau i fuddsoddi yn y gwasanaeth iechyd a sicrhau bod Byrddau Iechyd yn alinio eu gwasanaethau i sicrhau'r fantais orau i gleifion o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Rydym yn gweithio tuag at GIG sy'n cael ei arwain yn bennaf gan ofal sylfaenol ataliol; hynny yw, GIG sydd wedi'i integreiddio â gofal cymdeithasol ac sydd â chysylltiadau agos â gwasanaethau a ddarperir gan y trydydd sector a'r sector annibynnol.

Ers 2003, cafwyd cynnydd o £137m mewn buddsoddiad mewn ymarfer meddygol; o £322m yn 2003-04 i £459m yn 2013-14, gan ddangos ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau iechyd diogel a chynaliadwy yn y gymuned ac yn agos at gartrefi pobl. Mewn perthynas â 2014-15, yn unol ag argymhellion y Corff Adolygu Meddygon a Deintyddion, cafwyd cynnydd pellach o 0.28% neu £1.3 yn y buddsoddiad mewn ymarfer cyffredinol.

Yn ogystal, cyhoeddais fuddsoddiad pellach o £3.5m yn ddiweddar ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol yn 2014-15.



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Mae'r buddsoddiad hwn yn adlewyrchu'r angen i ailgydbwyso'r ffordd y mae'r GIG yn darparu gwasanaethau, a hynny yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus. Caiff yr arian ei dargedu at gamau gweithredu i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau yn y cymunedau mwyaf difreintiedig, datblygu timoedd gofal sylfaenol a darparu gwasanaethau gofal llygaid yn agosach at gartrefi pobl.

Bydd yr arian ychwanegol yn helpu i wireddu ein huchelgais i greu gweithlu cryf, sydd wedi'i hyfforddi'n dda ym maes gofal sylfaenol ac sy'n gallu darparu ystod eang o wasanaethau mewn cymunedau lleol. Bydd hyn yn lleihau ein dibyniaeth ar ofal yn yr ysbyty, ynghyd â threchu tlodi a lleihau anghydraddoldebau, sydd oll yn flaenoriaethau allweddol i Lywodraeth Cymru.

Yn gywir,
Mark

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services